# Y Pwyllgor Cyllid

## Cofnodion FIN (3) 15-08

**Dyddiad y cyfarfod : Dydd Iau 23 Hydref 2008**
**Amser y cyfarfod: 11.30am - 1.00pm**
**Lleoliad y cyfarfod : Ystafell Bwyllgora 1**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Angela Burns (Cadeirydd), Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Chris Franks, Canol De Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Jenny Randerson, Canol Caerdydd
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

John Grimes, Clerc
Abigail Phillips, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

**Eitem 2:**

Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus
Jeff Andrews, Cynghorydd Arbennig
Dr Christine Daws, Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Piers Bisson, Pennaeth Cynllunio Ariannol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Nick Bourne, Huw Lewis ac Ann Jones. Yr oedd Lesley Griffiths yn dirprwyo ar ran Ann Jones.

### Eitem 2: Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009-10: y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**Papur:**

FIN(3) 15-08 (p1) Llythyr gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

2.1 Clywodd y pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus.

2.2 Cytunodd y pwyllgor i drafod, ar ddyddiad arall, newidiadau posibl i amseru'r amserlen graffu ar y gyllideb gyda'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus.

2.3 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu:

(a) nodyn yn esbonio pam fod y refeniw terfyn gwariant adrannol (DEL) a nodwyd yn Atodlen 6 o Gynigion y Gyllideb Ddrafft 2009-10 £13.5 miliwn yn is na'r hyn a addawyd yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant (CSR) ar gyfer 2007;
(b) nodyn yn amlinellu'r cronfeydd wrth gefn a ddelir gan Awdurdodau Lleol, gan gynnwys dadansoddiad ar gyfer awdurdodau unigol;
(c) nodyn esboniadol ar y model pum achos busnes a ddefnyddiwyd gan y Bwrdd Buddsoddi Cyfalaf Strategol wrth ystyried dyraniad buddsoddiad cyfalaf;
(d) manylion am y camau tlodi plant a ddarparwyd ar eu cyfer yn y gyllideb ddrafft.

### Eitem 3: Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009-10: Adroddiadau gan bwyllgorau eraill

3.1 Derbyniodd y pwyllgor yr adroddiadau gan bwyllgorau eraill a bydd yn ychwanegu'r rhain at ei adroddiad ar y gyllideb.

### Penderfynodd y pwyllgor gynnal gweddill eu cyfarfod yn breifat yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi)

### Eitem 4: Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009-10: trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd y pwyllgor y dystiolaeth a gawsant mewn cysylltiad â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009-10.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Hydref 2008**